Y Bwrdd Taliadau

# Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg
# Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd

| | |
|---|---|
| **Enw'r Polisi:** | Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd |
| **Dyddiad yr Asesiad o’r Effaith:** | Mawrth 2026 |

**Cyflwyniad:**

Gwneir y Penderfyniad gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd, a gefnogir gan ysgrifenyddiaeth a ddarperir gan Gomisiwn y Senedd. Mae'r Penderfyniad yn nodi cyflogau Aelodau o’r Senedd a’u costau staff a busnes.

Nodir swyddogaethau a phwerau’r Bwrdd yn adrannau 20, 22, 24, 53 a 54 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac adran 3 o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010. Yn gryno, pwerau i wneud darpariaeth ar gyfer talu cyflogau, pensiynau, arian rhodd neu lwfansau i Aelodau o’r Senedd yw’r pwerau hyn.

Mae’r Mesur yn nodi bod rhaid i’r Bwrdd arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar wireddu'r amcanion canlynol:

(a) darparu lefel taliadau ar gyfer Aelodau o'r Senedd—

(i) sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni, a

(ii) nad yw, ar sail ariannol, yn atal personau y mae ganddynt yr ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol i'r Senedd,

(b) darparu adnoddau ar gyfer Aelodau o’r Senedd sy’n ddigonol i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau fel Aelodau o’r Senedd, ac

(c) sicrhau priodolder, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwariant cyllid cyhoeddus.

## Y Bwrdd a’r Gymraeg

Nid yw'r Bwrdd yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, ond mae wedi ymrwymo i gydymffurfio â Chynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd. Felly, mae'r Bwrdd yn cyhoeddi ei holl ddogfennau a gohebiaeth gyffredinol yn ddwyieithog, ac mae’n gohebu ac yn ymateb yn Gymraeg lle gofynnir am hynny, ac yn ystyried cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd penodol.

Gan nad yw'r Bwrdd yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, nid oes rhaid iddo gynnal Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg, ond mae wedi cynnal asesiad fel mater o arfer da ac er mwyn ystyried goblygiadau ei gynigion polisi o ran y Gymraeg.

**Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg: Dull gweithredu**

Gan nad yw'r Bwrdd yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, lluniwyd Asesiad Effaith pwrpasol i sicrhau bod gofynion Cynllun Comisiwn y Senedd yn cael sylw priodol, ac yn benodol felly yr adran Llunio Polisi ym mhennod 8, gan mai dyma’r adran sy’n cyd-fynd agosaf â’r angen i asesu proses a chynigion y Bwrdd o ran llunio polisi:

1. *Rhaid trin y ddwy iaith swyddogol yn gyfartal;*
2. *Yr hawl i ddefnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall; ac*

Ystyriwyd y maen prawf ychwanegol a ganlyn hefyd, gan ei fod fel arfer yn cael ei gynnwys yn Safonau’r Gymraeg ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus:

3. *Cyfleoedd i hybu’r Gymraeg.*

Mae'r Bwrdd hefyd yn nodi bod Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd yn gosod y dyletswyddau canlynol ar Aelodau:

*10. Dyletswyddau Aelodau o’r Senedd*

*10.1 Rhaid i unrhyw ddeunyddiau (gan gynnwys papur â phennawd, cardiau busnes, hysbysebion ar gyfer cymorthfeydd, adroddiadau a gwefannau) sy'n cael eu hariannu gan Gomisiwn y Senedd neu'r Bwrdd Taliadau gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.*

Rhaid i’r Aelodau hefyd ddilyn y Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau’r Senedd sy'n ategu’r dyletswyddau a nodir yn y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Nodir:

*Rheol 9 – Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol*

*Rhaid i weithgaredd cyfathrebu ac ymgysylltu sy’n defnyddio adnoddau'r Comisiwn fod yn unol â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol.*

## Diben a ffocws yr Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg

Mae'r Penderfyniad yn cynnwys sawl Pennod ac mae'r Bwrdd wedi nodi nifer o gynigion polisi diwygiedig neu newydd i'w cychwyn o ddechrau'r Seithfed Senedd.

Oherwydd ystod y cynigion polisi a’r ‘penderfyniadau’ unigol sydd dan sylw, mae’r Asesiad Effaith hwn yn canolbwyntio ar y materion a ganlyn sydd fwyaf perthnasol i ofynion Cynllun Comisiwn y Senedd a defnydd o’r Gymraeg gan yr Aelodau a’u staff a chyda’r cyhoedd:

- Gwaith drafftio cyffredinol y Penderfyniad

- Gwaith etholaethol (Pennod 6), sy’n ymwneud ag ymgysylltiad yr Aelodau â'r etholwyr

- Cyflogaeth staff yr Aelodau ac Arweinwyr Grwpiau (Penodau 7 ac 8)

Mae Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg yn y cyd-destun seneddol.

| Ar gyfer pwy mae'r Polisi? |
| --- |
| Mae'r Penderfyniad yn berthnasol i:<br><br>Y cyhoedd – deall pa gostau o ran cyflog, staff a busnes y caiff Aelodau eu hawlio<br><br>Y cyhoedd – darpar ymgeiswyr posibl mewn etholiadau<br><br>Aelodau o’r Senedd<br><br>Staff cymorth a gyflogir gan Aelodau o'r Senedd ac Arweinwyr Grwpiau (grwpiau gwleidyddol)<br><br>Comisiwn y Senedd – sy'n gyfrifol am weinyddu'r Penderfyniad a chyhoeddi hawliadau sy'n deillio o'r Penderfyniad. |

| Pwy sydd wedi cyfrannu / Â phwy yr ymgynghorwyd fel rhan o'r broses o ddatblygu'r asesiad? |
| --- |
| Mae nifer o gynigion polisi wedi eu llunio drwy gynnwys ac ymgysylltu â’r canlynol:<br><br>• Aelodau o’r Senedd (drwy sesiynau galw heibio yn ystod 2024-26, cyfweliadau ag Aelodau unigol a chyfarfodydd gyda chynrychiolwyr yr Aelodau fel rhan o Grŵp Cynrychiolwyr Aelodau y Bwrdd, ac Aelodau unigol<br>• Staff cymorth a gyflogir gan Aelodau o’r Senedd ac Arweinwyr Grwpiau a staff a chynrychiolwyr yr undebau fel rhan o Grŵp Cynrychiolwyr Staff y Bwrdd<br>• Swyddogion Comisiwn y Senedd, yn enwedig y tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau, sy'n gweinyddu'r Penderfyniad<br><br>Ymgynghorwyd yn ffurfiol â'r canlynol ar y cynigion polisi:<br><br>• Aelodau o’r Senedd<br>• Staff cymorth a gyflogir gan Aelodau o'r Senedd ac Arweinwyr Grwpiau (grwpiau gwleidyddol)<br>• Undebau Unite a PCS<br>• Comisiwn y Senedd<br>• ystod o randdeiliaid, gan gynnwys cyrff cynrychioli cydraddoldeb.<br>• Cafodd dogfennau ymgynghori’r Bwrdd eu cyhoeddi ar wefan y Bwrdd, a’u hyrwyddo drwy ddatganiadau i’r wasg a thrwy X. |

# Diben y cynigion polisi

## Gwaith drafftio cyffredinol y Penderfyniad

Nod y Bwrdd oedd creu dogfen gliriach a mwy hygyrch — un sy'n haws i'w darllen, ei dehongli a'i chymhwyso'n ymarferol i'r Aelodau, eu staff a Chomisiwn y Senedd. Drwy egluro a symleiddio'r Penderfyniad, mae'r Bwrdd hefyd yn ceisio gwneud y trefniadau ar gyfer cyflogau, staffio a chymorth busnes yr Aelodau yn fwy hygyrch a thryloyw i'r cyhoedd.

Mae symleiddio'r Penderfyniad wedi bod yn amcan allweddol i'r Bwrdd ac yn un o adolygiadau thematig craidd y Bwrdd yn ystod ei dymor diwethaf. Mae'r adolygiad Symleiddio wedi ceisio sicrhau bod y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd yn gliriach ac yn haws i'w ddarllen a'i ddeall, er mwyn ei gwneud yn haws ei weinyddu a'i ddehongli, ac mae wedi ceisio nodi:

- Rheolaethau a allai fod yn rhy gyfyngol neu'n ddiangen;
- Deunydd a fyddai'n elwa o'i ailddrafftio;
- Darpariaethau a allai fod yn ddiangen;
- Dyblygu a geiriau diangen;
- Geiriad sy'n disgrifio proses neu swyddogaeth a gyflawnir gan y Comisiwn; a
- Geiriad sy'n fwy addas ar gyfer rhan arall o'r Penderfyniad er eglurder.

Mae egwyddorion a rheolaethau sylfaenol y Penderfyniad hefyd wedi'u hadolygu, ac, mewn rhai meysydd, mae'r Bwrdd wedi ceisio rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Aelodau benderfynu sut maent yn rheoli eu hadnoddau er mwyn diwallu eu hanghenion eu hunain neu anghenion eu hetholwyr neu eu dewis ffyrdd o weithio, gan gynnal cydbwysedd rhwng atebolrwydd ac ymrwymiad i werth am arian i'r trethdalwr.

## Gwaith etholaethol (Pennod 6), sy'n ymwneud ag ymgysylltiad yr Aelodau â'r cyhoedd

Diben Pennod 6 o'r Penderfyniad yw caniatáu i Aelodau hawlio am gostau sy'n ymwneud â gweithio yn eu hetholaethau, a'u cynrychioli. Mae'n cynnwys ymgysylltu ag etholwyr, cymorth ar gyfer ymchwil a datblygu polisi, a chostau sy'n ymwneud â safleoedd a ddefnyddir i gyflawni dyletswyddau'r Senedd (h.y. safleoedd etholaethol) os yw'r Aelodau'n dewis eu cael.

## Cyflogi staff (Penodau 7 ac 8)

Mae’r Penderfyniad, ym Mhennod 7, yn galluogi’r Aelodau i hawlio costau cyflogi staff cymorth. Mae hefyd yn rhoi fframwaith i’r Aelodau y mae rhaid ei ddefnyddio wrth gyflogi staff cymorth os yw eu cyflogau, eu costau cyflogaeth, teithio a chynhaliaeth cysylltiedig, a’r hyn y mae ganddynt hawl iddo, i'w hariannu o dan y Penderfyniad hwn.

Mae Pennod 8 yn darparu adnoddau i Grwpiau'r Senedd ar gyfer gweinyddiaeth ganolog a chydlynu, cymorth ar gyfer gwaith craffu, ymchwil a datblygu polisïau sy'n gysylltiedig â dyletswyddau’r Aelodau, cymorth cyfathrebu, cymorth bugeiliol a llesiant, offer a gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys costau sy'n ymwneud â staffio, teithio, gwasanaethau a gomisiynir yn allanol, yn ogystal â gweithredu swyddfa grŵp.

## Tystiolaeth a data

Mae'r Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth (a gyhoeddwyd ar 16 Ebrill 2025) yn amcangyfrif bod 27.4% o bobl tair oed a throsodd yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg, sy'n cyfateb i tua 843,500 o unigolion. Mae gallu yn y Gymraeg wedi'i ddosbarthu'n anghyson ledled Cymru, sy'n golygu bod y galw am ymgysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg yn debygol o amrywio rhwng awdurdodau lleol ac etholaethau. Er enghraifft, cofnododd Cyfrifiad 2021 fod 55.3% o siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd o gymharu â 4.7% ym Mlaenau Gwent, sef gwahaniaeth o 50.6 pwynt canran.

Nid yw'r Bwrdd yn casglu data am y Gymraeg sy'n ymwneud ag Aelodau na'u staff gan nad yw’n ofynnol i’r Bwrdd wneud hynny. Ar sail Adroddiad Blynyddol Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd ar gyfer 2023–24, mae data’r gweithlu mewnol yn dangos bod gan 43% o staff Comisiwn y Senedd allu yn y Gymraeg ar lefel uchel neu rugl. Dywed 30% arall fod ganddynt sgiliau sylfaenol i ganolradd, a dywed 23% fod ganddynt Gymraeg cwrteisi a 4% nad oes ganddynt ddim sgiliau Cymraeg.

| A fydd y camau arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un o'r canlynol neu bob un ohonynt? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **A fydd y cynigion yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y byddant yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) y gellir eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
| **Mae'r ddwy iaith swyddogol yn cael eu trin yn gyfartal (sy'n gyson â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol)** | Niwtral-Positif | Mae'r Penderfyniad yn gosod fframwaith o adnoddau i ddarparu cymorth digonol i'r Aelodau ac nid yw'n newid gofynion Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd.<br><br>Rhaid cynhyrchu deunyddiau a ariennir gydag adnoddau Comisiwn y Senedd neu'r Bwrdd yn ddwyieithog, a darperir gwasanaethau cyfieithu'n ganolog gan Gomisiwn y Senedd. Darperir adnoddau ariannol ychwanegol ar gyfer cyfieithu neu gynhyrchu deunydd wedi'i gyfieithu, lle bo angen, drwy'r Penderfyniad. | **Dyletswyddau presennol yr Aelodau**<br>Mae Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd yn nodi bod rhaid i ddeunyddiau a ariennir gan Gomisiwn y Senedd neu'r Bwrdd gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, ac mae Comisiwn y Senedd yn talu costau cyfieithu.<br><br>Nid yw'r Penderfyniad yn newid y trefniadau hyn. Felly, mae systemau presennol Comisiwn y Senedd yn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal mewn allbynnau a ariennir.<br><br>**Cymorth cyfieithu** | Mae'r Penderfyniad diwygiedig yn cynnwys cyfeiriadau at y Rheolau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd. Mae'r fersiwn ddrafft o Bennod 6 – Gwaith Etholaethol yn benodol yn cynnwys cyfeiriadau mewn troednodyn at Reol 7 – Trin etholwyr yn gyfartal wrth ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn a Rheol 8 – Cyfathrebu ac ymgysylltu ag etholwyr gan ddefnyddio adnoddau'r Comisiwn. **Gellid estyn y cyfeiriad hwn i gynnwys: Rheol 9 – Ieithoedd Swyddogol a chyfeiriad at** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Darperir cyfieithu testun etholaethol drwy wasanaeth Comisiwn y Senedd a ariennir yn ganolog gydag amseroedd cwblhau penodol, sy'n golygu nad oes angen i'r Aelodau fel arfer hawlio costau cyfieithu drwy'r Penderfyniad.<br><br>**Hyfforddiant sgiliau Cymraeg**<br>Cynigir hyfforddiant sgiliau Cymraeg i'r Aelodau a'u staff cymorth gan Gomisiwn y Senedd yn ystod oriau gwaith.<br><br>**Cymorth drwy'r Penderfyniad**<br>Gall Aelodau hawlio am argraffu/cyhoeddi deunyddiau dwyieithog drwy'r Penderfyniad.<br><br>Gall Aelodau hawlio am gostau cyfieithu ar y pryd drwy'r Penderfyniad (drwy'r gyllideb Gwaith Etholaethol) a chânt hefyd hawlio am arwyddion dwyieithog drwy'r gyllideb Cychwyn | **ddyletswyddau'r Aelodau o dan Safon 10 o'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn y Penderfyniad terfynol ar gyfer y Seithfed Senedd**, oherwydd byddai hyn yn cyfeirio at statws y Gymraeg ac yn atgoffa'r Aelodau o'u dyletswyddau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Swyddfa a’r gyllideb Adnewyddu Swyddfa. | |
| **Cyfleoedd a hawl i bersonau ddefnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall (sy’n gyson â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol)**<br><br>e.e. Aelodau, staff cymorth, staff y Comisiwn ac etholwyr | Niwtral | Nid yw'r Penderfyniad yn effeithio ar hawl unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg wrth ymgysylltu â’r Aelodau neu eu staff. Yr Aelodau sy'n penderfynu ar eu dewis iaith yn y Senedd ac yn eu gwaith etholaethol, gyda chymorth Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd.<br><br>Mae tystiolaeth yn dangos bod staff sy'n siarad Cymraeg yn swyddfeydd sawl un o’r Aelodau, er bod hyn yn anghyson ac yn seiliedig ar hunangofnodi gallu.<br><br>Nid yw'r cynigion yn newid strwythurau staffio, arferion recriwtio, na modelau darparu gwasanaethau a fyddai'n effeithio ar ddewis iaith.<br><br>Cefnogir darpariaeth ar gyfer arwyddion, cyfathrebu a deunyddiau dwyieithog drwy systemau Comisiwn y Senedd, tra bo’r Penderfyniad yn caniatáu hawlio costau penodol megis cyfieithu ar y pryd lle bo angen. Nid yw’r trefniadau hyn wedi newid. | **Cymorth cyfieithu**<br>Mae Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd yn sicrhau deunyddiau dwyieithog a gwasanaethau cyfieithu a ariennir yn ganolog.<br><br>**Hyfforddiant sgiliau Cymraeg**<br>Cynigir hyfforddiant sgiliau Cymraeg i’r Aelodau a’u staff cymorth gan Gomisiwn y Senedd yn ystod oriau gwaith.<br><br>**Cymorth drwy’r Penderfyniad**<br>Gall Aelodau hawlio am gostau cyfieithu ar y pryd drwy’r Penderfyniad (drwy’r gyllideb Gwaith Etholaethol) a chânt hefyd hawlio am arwyddion dwyieithog drwy’r gyllideb Cychwyn Swyddfa a’r gyllideb Adnewyddu Swyddfa.<br><br>O ddadansoddi hawliadau’r Aelodau, gwelir mai prin y caiff costau cyfieithu eu | **Mater i Gomisiwn y Senedd,** sydd eisoes yn darparu canllawiau, hyfforddiant a chostau/cymorth cyfieithu, yw hynny.<br><br>**Fel rhan o'r agenda Symleiddio, mae'r Bwrdd wedi cael gwared ar bob cyfeiriad at bolisïau neu ganllawiau Comisiwn y Senedd o'r Penderfyniad.** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | hawlio drwy'r Penderfyniad, a phan fo hynny’n digwydd, mae’n ymwneud yn bennaf â chyfieithu ar y pryd yn hytrach na chyfieithu ysgrifenedig, sy’n adlewyrchu argaeledd gwasanaethau'r Comisiwn a ariennir yn ganolog. | |
| **Cyfleoedd i hybu’r Gymraeg (sy’n gyson â Safonau cyrff cyhoeddus)**<br><br>e.e. Aelodau, staff cymorth, staff y Comisiwn ac etholwyr | Niwtral | Mae'r Bwrdd yn darparu'r fframwaith ariannol sy'n galluogi’r Aelodau i gyflogi staff ac ymgysylltu ag etholwyr, a all gefnogi ymgysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg pan fo galw am hynny’n lleol neu os dyna yw dewis gyfrwng gweithio’r Aelod. Wrth bennu’r fframwaith hwnnw, mae'n nodi meini prawf cyflogaeth perthnasol er mwyn sicrhau gwerth am arian a chysondeb o ran cyflogau a thelerau ac amodau staff cymorth.<br><br>Mae'r Bwrdd yn cyflwyno Fframwaith Dosbarthu Swyddi o ddechrau'r Seithfed Senedd, sy’n fframwaith graddio. Gall ystyriaethau o ran y Gymraeg a hyfedredd ynddi fod yn gymwys i bob gradd a phenderfynir ar hynny drwy arferion recriwtio yn hytrach na strwythurau cyflogau. | **Cyfyngiadau statudol**<br>Nid yw'r Bwrdd yn ddarostyngedig i Safonau’r Gymraeg ac nid oes ganddo bŵer i osod gofynion na safonau o ran y Gymraeg ar Aelodau.<br><br>Fframwaith graddio yw’r Fframwaith Dosbarthu Swyddi (ac ni fyddai sgiliau Cymraeg yn ffactor perthnasol wrth asesu graddau neu gyflogau, ond gallent fod yn gymwys i bob rôl); mae canllawiau recriwtio a luniwyd gan Gomisiwn y Senedd (a all gyfeirio at fatrics sgiliau iaith Comisiwn y Senedd neu fframweithiau sgiliau eraill) yn ddull mwy effeithiol o annog yr | Nodwyd y byddai’n opsiwn cynnwys cyfeiriad at ystyried sgiliau Cymraeg wrth ddosbarthu rolau swyddi yn y Fframwaith Dosbarthu Swyddi fel ‘arfer da’ – fodd bynnag, mae rhaid i’r Aelodau gydymffurfio â'r Fframwaith Dosbarthu Swyddi (fel rhan o'r Penderfyniad) er mwyn hawlio costau staffio ac felly **gellid dehongli cyfeiriad o’r fath fel gofyniad, a fyddai y tu hwnt i gymhwysedd y Bwrdd. Felly, mae'r dull hwn wedi'i ddiystyru.** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Nid oes gan y Bwrdd bwerau i osod gofynion na Safonau penodol o ran y Gymraeg ar Aelodau, gan nad ydynt yn rhan o gylch gorchwyl y Bwrdd.<br><br>Mae’r Aelodau yn gyflogwyr unigol ac mae ganddynt hyblygrwydd i benderfynu ar eu strwythur staffio, y rolau sydd eu hangen ac unrhyw arbenigedd neu sgiliau, gan gynnwys hyfedredd staff cymorth yn y Gymraeg. | Aelodau i ystyried sgiliau Cymraeg staff.<br><br>**Cymorth cyfieithu**<br>Mae Cynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Senedd yn nodi bod rhaid cynhyrchu deunyddiau dwyieithog ac mae'n darparu gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd.<br><br>**Cymorth drwy’r Penderfyniad**<br>Er na all y Bwrdd osod gofynion o ran y Gymraeg ar gyfer rolau staff, mae'r Penderfyniad yn darparu'r fframwaith ariannol sy'n galluogi’r Aelodau i recriwtio staff sydd â sgiliau Cymraeg pan fo hynny’n cyd-fynd â'u hanghenion busnes. | Efallai y bydd Comisiwn y Senedd am ystyried cyfeirio at y dull o asesu sgiliau ar gyfer rolau ac argaeledd hyfforddiant sgiliau Cymraeg i staff yn nhempledi’r disgrifiadau swyddi a'r Canllawiau Recriwtio i Aelodau. **Bydd y Bwrdd yn ysgrifennu at Gomisiwn y Senedd i nodi'r materion hyn.** |